

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Live Life Smiling,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Dyddiad yr arolygiad: 26 Mawrth 2024

Dyddiad cyhoeddi: 26 Mehefin 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	• Ansawdd Profiad y Claf	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	17
4.	Y camau nesaf	20
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	21
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	22
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	23

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Live Life Smiling, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 26 Mawrth 2024.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 37 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch gan staff proffesiynol. Dywedodd y cleifion a ymatebodd i arolwg AGIC fod y gwasanaeth yn 'dda iawn' neu'n 'dda' ac roedd yr holl adborth a gawsom yn gadarnhaol.

Dywedodd yr ymatebwyr wrthym hefyd eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch, a'u bod yn cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael iddynt. Roedd staff y practis yn rheoli gofal brys ac apwyntiadau a oedd yn cael eu canslo yn briodol. Gwelsom fod addasiadau rhesymol ar waith i gefnogi'r staff a'r cleifion.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig weithio gyda'r bwrdd iechyd i roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd trefniadau cadarn ar waith i sicrhau bod cleifion yn cael gofal brys amserol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom bractis taclus a modern a oedd yn drefnus, wedi'i ddodrefnu'n dda ac yn cynnwys cyfarpar addas. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod angen gwneud rhai gwelliannau mewn perthynas â glendid y droriau clinigol mewn dwy ddeintyddfa. Roedd yr holl gyfarpar a oedd ar gael i'w ddefnyddio mewn argyfwng yn cael ei reoli'n gywir. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod peiriant pelydr-X wedi'i leoli yn yr un ystafell â'r ardal dihalogi cyfarpar, a allai fod wedi peri risg i ddiogelwch cleifion. Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu storio'n briodol ond gwelsom enghreifftiau lle nad oedd yr holl wybodaeth berthnasol wedi'i nodi yn y cofnodion.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff pob rhan o'r practis ei chadw'n lân bob amser ac y caiff amserlen lanhau gadarn ei rhoi ar waith
- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal llwybr archwilio cadarn wrth waredu meddyginiaethau, yn enwedig cyffuriau a reolir
- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion cleifion cywir, cynhwysfawr a chyflawn eu cadw bob amser.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y trefniadau a oedd ar waith ar gyfer diogelu plant ac oedolion agored i niwed yn gynhwysfawr
- Roedd y gwiriadau diogelwch tân a'r gweithdrefnau a oedd ar waith i reoli risg yn gadarn.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom strwythurau llywodraethu clir ac arweinwyr hawdd mynd atynt a oedd yn helpu i reoli a rhedeg y practis yn effeithiol. Roedd y staff yn gyfeillgar ac yn gwrtais, a dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn gwrando arnynt ac yn ateb eu cwestiynau. Roedd cofnodion hyfforddi'r staff yn dangos eu bod wedi cael hyfforddiant priodol ar gyfer eu rolau. Roedd trefniadau cynhwysfawr ar waith i helpu'r staff i ddysgu a datblygu. Roedd y trefniadau ar gyfer rheoli adborth a chwynion ac ymateb iddynt yn gadarn ac roedd gweithgareddau gwella ansawdd yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Roedd y rheolwyr yn goruchwyllo rhwymedigaethau proffesiynol y staff yn foddhaol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y staff yn teimlo bod y rheolwyr yn eu cefnogi ac roeddent yn gwrtais ac yn broffesiynol.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Dosbarthodd AGIC holiadur er mwyn casglu barn cleifion am y gofal yn Live Life Smiling ar gyfer yr arolygiad ym mis Mawrth 2024. Cafwyd cyfanswm o 37 o ymatebion gan gleifion yn y lleoliad hwn. Nid atebodd rhai o'r ymatebwyr bob cwestiwn, a oedd yn golygu nad oedd 37 o ymatebion ar gyfer pob cwestiwn.

Ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn gadarnhaol. Dywedodd pawb a ymatebodd fod y gwasanaeth yn 'dda iawn' (32/36) neu'n 'dda' (4/36).

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

“Rwyf wedi bod yn dod i'r practis hwn ers sawl blwyddyn. Mae pob aelod o'r staff yn barod iawn i helpu. Maent bob amser yn gyfeillgar ac yn hapus.”

“Mae'r staff bob amser yn gyfeillgar ac yn gwrtais. Maent bob amser yn ceisio trefnu pethau ar yr adegau sydd fwyaf cyfleus i mi. Cyfleuster glân iawn. Mae'n hawdd siarad â'r deintyddion ac maent yn esbonio'r triniaethau yn dda.”

“Rwyf bob amser wedi cael gofal rhagorol yn y practis deintyddol hwn. Rwyf bob amser yn teimlo'n dawel fy meddwl ac yn cael gofal da.”

“Mae'r staff yn gwrtais iawn ac maent bob amser yn gwneud yn siŵr eich bod yn cael profiad rhagorol.”

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu Iechyd

Roedd gwybodaeth addas ar gael i'r cleifion am y gwasanaeth yn y daflen gwybodaeth i gleifion. Roedd gwybodaeth ychwanegol am faterion iechyd y geg fel iechyd deintyddol pediatrig, cyngor ar bydredd dannedd a selio rhychau hefyd wedi'i harddangos ar sgriniau i gleifion yn yr ardaloedd aros. Gwelsom fod y ffioedd

ar gyfer gwasanaethau'r GIG a gwasanaethau preifat wedi'u harddangos yn glir, ac roedd enwau'r ymarferwyr a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) hefyd i'w gweld yn glir. Gwelsom fod yr oriau agor a'r manylion cyswllt mewn argyfwng i'w gweld ar ddrws y ffrynt.

Nododd pawb a ymatebodd i holiadur cleifion AGIC fod y staff wedi esbonio eu hiechyd y geg iddynt mewn modd y gallent ei ddeall. Roedd pob un o'r cleifion yn cytuno eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal clir ar sut i gynnal iechyd da yn y geg.

Gofal Urddasol a Pharchus

Gwelsom gleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch drwy gydol ein harolygiad. Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff. Gwelsom fod pob ardal o'r practis wedi'i dylunio i sicrhau lefelau addas o breifatrwydd a chyfrinachedd i'r cleifion. Roedd hyn yn cynnwys gwydr barugog ar ddrysau'r deintyddfeydd a oedd yn cael eu cadw ar gau yn ystod ymgynghoriadau. Roedd cleifion hefyd yn cael cynnig cynnal sgysiau sensitif mewn man ar wahân i ddesg y dderbynfa, pe byddai angen.

Roedd codau moeseg y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos yn yr ardal aros.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Nododd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys yn y penderfyniadau am eu triniaeth. Nododd pob un o'r cleifion hefyd eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall pa opsiynau triniaeth a oedd ar gael, gan gynnwys gwybodaeth am risgiau a manteision yr opsiynau a oedd ar gael.

Roedd pob un o'r cleifion yn cytuno eu bod wedi cael gwybodaeth ôl-ofal addas am sut i gynnal iechyd y geg da a beth i'w wneud pe byddai haint neu argyfwng.

Amserol

Gofal Amserol

Gwelsom fod systemau priodol ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael gofal amserol. Roedd achosion o oedi cyn apwyntiadau yn cael eu rheoli gan staff y dderbynfa, drwy ymgynghori â'r staff clinigol, ac roedd y cleifion yn cael gwybod amdanynt mewn modd amserol. Pe bai mwy na 10 munud o oedi, byddai cleifion yn cael cynnig yr opsiwn i drefnu apwyntiad ar ddyddiad gwahanol. Dywedodd y staff wrthym fod gan bob clinigydd amseroedd aros gwahanol rhwng apwyntiadau cyffredin, ond fel arfer bod cleifion yn aros pythefnos ar gyfartaledd.

Roedd apwyntiadau brys yn cael eu goruchwyllo gan staff y dderbynfa drwy broses frysbenno dros y ffôn. Roedd pob deintydd yn neilltuo apwyntiad 30 munud o hyd bob dydd ar gyfer argyfyngau. Dywedwyd wrthym na fyddai unrhyw glaf yn aros mwy na 24 awr i weld ymarferydd pe byddai problem ddeintyddol frys.

Nododd pob un o'r cleifion y byddent yn ei chael yn 'hawdd iawn' (27/37) neu'n 'eithaf hawdd' (10/37) cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion (29/37) yn cytuno y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai problem ddeintyddol frys yn codi.

Teg

Cyfathrebu ac Iaith

Roedd gwybodaeth i gleifion ar gael yn hawdd yn Saesneg, gan gynnwys ar sgriniau digidol yn yr ardal aros, ond prin oedd y wybodaeth a oedd ar gael i gleifion yn Gymraeg. Gwelsom arwyddion yn y practis a oedd yn uniaith Saesneg, ond gwelsom fod yr arwydd 'Iaith Gwaith' i'w weld yn y dderbynfa er mwyn annog cleifion i gyfathrebu yn Gymraeg pe byddent am wneud hynny. Roedd y staff hefyd yn cael eu hannog i wisgo bathodynau 'Iaith Gwaith'.

Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, gwnaethant ddangos dealltwriaeth o'r 'Cynnig Rhagweithiol' a'r gofyniad i ddarparu gwasanaeth dwyieithog i gleifion. Fodd bynnag, gwnaethant esbonio ei bod hi'n anodd cyfieithu dogfennau ac arwyddion oherwydd y costau a'r amser sydd ei angen.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig weithio gyda'r bwrdd iechyd i roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gallu defnyddio adnoddau cyfieithu i gyfathrebu â chleifion nad Saesneg yw eu mamiaith. Cadarnhaodd y staff y gellid darparu gwybodaeth i gleifion yn eu dewis iaith ar gais.

Hawliau a Chydraddoldeb

Gwelsom fod hawliau a chydraddoldeb y cleifion a'r staff yn cael eu cefnogi a'u cynnal yn weithredol. Roedd y polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth a adolygwyd yn ddiweddar yn dangos dull priodol o gefnogi hawliau'r cleifion a'r staff. Roedd polisi gwahaniaethu'r practis yn nodi na fyddai unrhyw fath o aflonyddu neu wahaniaethu tuag at staff na chleifion yn cael ei oddef.

Gwelsom fod gan y practis ddull addas o helpu cleifion a staff yr oedd angen gwneud unrhyw addasiadau rhesymol ar eu cyfer. Clywsom am enghreifftiau lle roedd aelodau o'r staff wedi cael troedfainc i'w helpu i wella yn dilyn anaf i'w coes a lle roedd aelod arall o'r staff wedi cael cynhaliwr meingefn i'w roi ar ei gadair.

Roedd cleifion trawsryweddol yn cael cymorth priodol i gynnal eu hawliau o ran cydraddoldeb.

Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC wrthym nad oeddent wedi wynebu unrhyw fath o wahaniaethu wrth ddefnyddio'r gwasanaeth hwn. Nododd y rhan fwyaf o'r cleifion (34/36) fod yr adeilad yn hygyrch a dywedodd dau glaf nad oeddent yn siŵr.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli Risg

Yn ôl yr hyn a welsom, roedd y practis yn daclus ac mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Roedd y practis ar y llawr gwaelod ac roedd tir gwastad yn arwain ato. Roedd ardal y dderbynfa yn ddigon mawr ar gyfer y tair deintyddfa. Clywsom y llinellau ffôn yn gweithio'n effeithiol a gwelsom fod ardaloedd newid addas â loceri ar gael i'r staff. Roedd y toiledau i'r cleifion a'r staff yn lân ac yn cynnwys cyfarpar priodol. Fodd bynnag, nodwyd yn y daflen i gleifion nad oedd y toiledau i'r cleifion yn addas i unigolion ag anabledd.

Roedd eitemau untro yn cael eu defnyddio lle y bo angen. Roedd y cyfarpar deintyddol mewn cyflwr da ac roedd digon o eitemau ar gael i allu eu dihalogi'n effeithiol ar ôl eu defnyddio.

Roedd polisiau a gweithdrefnau addas ar waith i gefnogi iechyd, diogelwch a llesiant y cleifion a'r staff. Roedd asesiadau risg diweddar wedi cael eu cynnal ar gyfer diogelwch tân ac iechyd a diogelwch, ac roedd polisi parhad busnes addas ar waith hefyd. Wrth edrych ar y cyfarpar a'r wybodaeth diogelwch tân, gwelsom fod trefniadau cadarn a chynhwysfawr ar waith mewn perthynas â diogelwch tân. Roedd y trefniadau hyn yn cynnwys cynnal a chadw cyfarpar diogelwch tân yn rheolaidd ac arddangos arwyddion diogelwch tân a dim smygu yn glir.

Roedd tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyflogwr y practis a phoster gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cael eu harddangos.

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Roedd y rhan fwyaf o ardaloedd y practis yn lân ac yn drefnus. Fodd bynnag, roedd haenau o lwch i'w gweld y tu mewn i ddroriau dwy ddeintyddfa. Er bod yr eitemau clinigol a oedd yn cael eu storio yn y droriau hyn wedi'u selio mewn deunydd pecynnu ac yn cael eu storio mewn cynwysyddion cyfarpar, ni chawsom sicrwydd na fyddai'r eitemau clinigol a oedd yn cael eu defnyddio y tu mewn i'r geg yn cael eu halogi drwy gael eu storio o dan yr amodau hyn. Nodwyd gennym hefyd nad oedd yr amserlenni glanhau a oedd ar waith yn dynodi bod angen glanhau'r droriau o dan y cynwysyddion cyfarpar yn drylwyr.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff pob rhan o'r practis ei chadw'n lân bob amser.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff amserlen reolaidd ei rhoi ar waith i gynnal gwaith glanhau trylwyr ym mhob ardal glinigol.

Roedd digon o Gyfarpar Diogelu Personol (PPE) ar gael i'r staff ac roedd yr amgylchedd mewn cyflwr da er mwyn gallu ei lanhau'n effeithiol. Gwelsom fod y cyfleusterau hylendid dwylo a'r arwyddion cysylltiedig yn briodol.

Dyweddodd y cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod yn teimlo bod y practis yn 'lân iawn' (35/36) neu'n 'eithaf glân' (1/36). Nododd y rhan fwyaf o'r cleifion (34/36) eu bod yn teimlo bod y staff yn dilyn mesurau atal a rheoli heintiau yn briodol, gydag un claf yn nodi nad oedd yn gwybod.

Roedd gwasanaethau iechyd galwedigaethol ar gael i'r staff er mwyn ymdrin ag anafiadau offer miniog a gwelsom fod dyfeisiau offer miniog mwy diogel yn cael eu defnyddio er mwyn atal anafiadau. Roedd protocol addas ar waith ar gyfer anafiadau offer miniog.

Roedd prosesau cyn-sterileiddio â llaw ac uwchsain yn cael eu cynnal cyn sterileiddio'r awtoclaf. Roedd y trefniadau profi hyn yn gadarn, ac yn cael eu hategu gan archwiliadau a oedd yn cael eu cynnal ddwywaith y dydd a rhestrau gwirio dyddiol ar gyfer pob deintyddfa. Roedd y broses ar gyfer diheintio argraffiadau yn briodol.

Roedd proses ddihalogi'r practis yn cael ei chynnal mewn ardal ddynodedig wedi'i lleoli oddi ar goridor a oedd yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd gan y staff a'r cleifion. Roedd yr ardaloedd 'glân' a 'budr' wedi'u marcio'n glir. Fodd bynnag, roedd yr ardal ddihalogi hefyd wrth ymyl orthopantomogram (OPG) y practis lle byddai cleifion weithiau'n cael archwiliad pelydr-X ar yr un pryd ag yr oedd proses ddiheintio yn mynd rhagddi. Dywedwyd wrthym nad oedd hyn yn digwydd yn rheolaidd ond ei fod yn digwydd o bryd i'w gilydd. Gwnaethom hysbysu'r staff na ddylai unrhyw glaf gael archwiliad OPG ar yr un pryd â chylch dihalogi er mwyn amddiffyn y cleifion. Roedd agosrwydd yr OPG at yr ardal ddihalogi yn peri risg y byddai'r cleifion yn dod i gysylltiad ag erosolau halogedig yn ystod cylchoedd yr awtoclaf. Nodwyd gennym hefyd y gallai'r trefniadau beri risg bosibl o niwed i gleifion pe byddai'r peiriant awtoclaf yn ddiffygiol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y broses ddihalogi ei chynnal ar wahân i'r cleifion er mwyn sicrhau diogelwch cleifion.

Nodwyd gennym fod y broses ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn foddhaol, ac roedd y manylion yn cael eu cadw gyda'i gilydd mewn ffolder COSHH gynhwysfawr. Gwelsom fod yr holl wastraff yn cael ei storio'n ddiogel a'i waredu'n briodol drwy gontractau gwaredu gwastraff addas.

Rheoli Meddyginiaethau

Nid oedd y staff yn rhoi meddyginiaethau fel mater o drefn, heblaw am y rhai a fyddai'n cael eu defnyddio mewn argyfwng. Nodwyd gennym fod polisi addas ar gyfer cael, trin a defnyddio meddyginiaethau a'u cadw'n ddiogel. Gwelsom fod meddyginiaethau brys yr oedd y dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio yn cael eu gwaredu mewn fferyllfa leol, gan gynnwys y rhai a restrwyd fel cyffuriau a reolir o dan ddeddfwriaeth camddefnyddio cyffuriau. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym nad oeddent yn cael unrhyw dderbynebaw wrth waredu'r cyffuriau a reolir ac ni welsom unrhyw dystiolaeth ar ffeil eu bod yn cael eu gwaredu. Byddai cael derbynebaw adeg gwaredu yn amddiffyn y staff ac yn atal cyffuriau a reolir rhag cael eu colli, eu camgadw neu eu camddefnyddio.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal llwybr archwilio cadarn wrth waredu meddyginiaethau, yn enwedig cyffuriau a reolir.

Roedd manylion meddyginiaethau wedi'u nodi'n glir yng nghofnodion y cleifion ac roedd y cyngor a roddwyd gan yr ymarferwyr i'r cleifion hefyd yn cael ei gofnodi'n glir. Roedd yr hyn a ddywedodd y cleifion wrthym yn ategu hyn.

Gwelsom fod trefniadau boddhaol ar waith i sicrhau bod argyfyngau meddygol yn cael eu rheoli'n ddiogel ac yn effeithiol. Roedd cofnodion y staff yn dangos eu bod yn meddu ar gymwysterau addas ym maes adfywio cardiopwlmonaidd a chymorth cyntaf. Wrth archwilio'r cyfarpar brys, roedd yr holl eitemau yn bresennol, yn hawdd cael gafael arnynt ac o fewn eu dyddiadau defnyddio. Gwnaethom nodi bod gwiriadau wythnosol yn cael eu cynnal ar yr holl gyfarpar brys. Gwelsom hefyd fod y padiau presgripsiwn yn cael eu storio'n ddiogel fel sy'n briodol.

Diogelu Plant ac Oedolion

Gwelsom fod polisiau a gweithdrefnau diogelu cynhwysfawr a chyfredol ar waith i hybu ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion. Roedd y polisi a'r gweithdrefnau yn cynnwys Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan, yn nodi arweinydd diogelu penodedig ac yn cynnwys y manylion cyswllt ar gyfer gwasanaethau cymorth lleol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn defnyddio ap Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan ar eu dyfeisiau symudol er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant addas ar ddiogelu plant ac oedolion. Dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth foddhaol o weithdrefnau diogelu gan ddweud eu bod yn teimlo y byddent yn cael eu cefnogi pe byddent yn codi pryder.

Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol

Gwelsom fod y cyfarpar clinigol yn ddiogel, mewn cyflwr da ac yn addas at y diben. Gwelsom fod y cyfarpar deintyddol aml dro mewn cyflwr da a'i fod yn hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus o ran defnyddio'r cyfarpar, ac roedd y cofnodion hyfforddiant a welsom yn cadarnhau eu bod wedi cael hyfforddiant addas ar gyfer eu rolau.

Gwelsom fod ffolder diogelu rhag ymbelydredd y practis yn gyfredol ac yn gynhwysfawr. Wrth edrych ar gofnodion y cleifion, gwelsom fod y nodiadau clinigol ar gyfer triniaethau radiograffig wedi cael eu cwblhau'n llawn. Roedd y cofnodion hefyd yn dangos fod risgiau a manteision ymbelydredd yn cael eu hesbonio i gleifion, a lle y bo'n berthnasol i'w cysurwyr, a bod unrhyw gysylltiadau yn cael eu cofnodi'n briodol. Nodwyd gennym ei bod hi'n hawdd cael gafael ar y rheolau lleol. Roedd cofnodion hyfforddiant y staff yn dangos bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant radiograffeg i lefel briodol.

Effeithiol

Gofal Effeithiol

Gwelsom fod y staff yn asesu cleifion ac yn gwneud diagnosis yn ddiogel. Roedd cofnodion y cleifion yn dangos bod triniaethau yn cael eu darparu'n unol ag anghenion clinigol a chan gydymffurfio â chanllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol.

Dangosodd y staff clinigol y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau ac roeddent hefyd yn gwybod ble i gael gafael ar gyngor proffesiynol perthnasol pe bai angen.

Gwelsom ddefnydd priodol o restrau gwirio clinigol fel y Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwithiol.

Cofnodion Cleifion

Gwnaethom edrych ar gofnodion cyfanswm o 10 claf a oedd yn cael eu storio fel rhan o system rheoli cofnodion briodol ac yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Roedd polisi rheoli cofnodion addas hefyd ar waith.

Gwelsom fod y rhesymau dros fynychu, hanes meddygol wedi'i lofnodi a siartiau sylfaenol llawn oll yn cael eu cofnodi fel mater o drefn. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod y practis wedi gofyn i'r cleifion nodi eu dewis iaith yn ddiweddar a bod manylion y camau a oedd yn cael eu cymryd mewn ymateb i hyn yn cael eu cofnodi. Fodd bynnag, yn y 10 cofnod a welsom, nodwyd bod angen gwella ansawdd nodiadau'r cleifion yn y meysydd canlynol:

- Nid oedd profion sgrinio am ganser y geg wedi'u cofnodi yn unrhyw un o'r cofnodion a welsom
- Nid oedd asesiadau risg yn seiliedig ar geudodau, perio, traul dannedd a chanser y geg wedi'u cofnodi yn unrhyw un o'r cofnodion
- Nid oedd cydsyniad ar sail gwybodaeth wedi'i gofnodi mewn pump cofnod
- O'r un cofnod perthnasol a welsom, ni chofnodwyd bod cyngor wedi'i roi ar roi'r gorau i smygu
- Nid oedd unrhyw dystiolaeth wedi'i chofnodi i ddangos bod camau atal 'Delivering Better Oral Health' wedi'u rhoi ar waith.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion cleifion cywir a chynhwysfawr eu cwblhau yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a chanllawiau Cyfadran Ymarfer Deintyddol Cyffredinol y DU.

Effeithlon

Effeithlon

Gwelsom fod y clinigwyr yn darparu gwasanaeth boddhaol i ddiwallu anghenion eu cleifion ar safle addas. Roedd y cleifion yn symud ar hyd llwybrau trin mewnol ac allanol yn effeithlon. Gwelsom fod yr apwyntiadau hyn yn cael eu defnyddio'n effeithiol o ganlyniad i gymysgedd priodol o sgiliau a phroses trefnu apwyntiadau a brysbennu gadarn.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Roedd strwythurau rheoli clir ar waith er mwyn helpu i redeg y practis yn effeithiol. Roedd cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal bob chwe wythnos, ac roedd cofnodion y cyfarfodydd a welsom yn dangos bod trafodaethau addas wedi cael eu cynnal ar ymarferion tân, newidiadau i bolisiau a holiaduron cleifion. Gwelsom fod y practis wedi cynnal gweithgaredd datblygu tîm addas yn ddiweddar, a bod gweithgaredd arall wedi'i drefnu ar gyfer 2024.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwrtais ac yn broffesiynol. Cadarnhaodd y staff a'r rheolwyr eu bod wedi cael digon o hyfforddiant a chymorth i ymgymryd â'u rolau yn effeithiol. Gwelsom dystiolaeth fod risgiau yn cael eu cofnodi a bod y rheolwyr yn ymdrin â nhw'n briodol.

Y Gweithlu

Gweithlu Medrus a Galluog

Gwelsom fod trefniadau cadarn ar waith i sicrhau bod y staff yn parhau i gael hyfforddiant llawn ar gyfer eu rolau. Gwnaethom edrych ar 7 o'r 19 o gofnodion staff a oedd ar gael, a gwelsom gydymffurfiaeth lawn â'r holl ofynion o ran hyfforddiant gorfodol. Roedd system addas yn cael ei defnyddio i fonitro cydymffurfiaeth staff â hyfforddiant. Roedd hyfforddiant perthnasol yn ogystal â'r gofynion gorfodol hefyd i'w weld yn y cofnodion a welsom ar gyfer rhai o'r nyrsys. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo eu bod yn cael cymorth i ddatblygu yn Live Life Smiling a'u bod yn cael amser i fynychu cyrsiau hyfforddiant. Roedd y rheolwyr yn goruchwylio'r prosesau ar gyfer sefydlu staff drwy bolisi recriwtio priodol a rhestr wirio sefydlu fanwl. Gwelsom dystiolaeth fod arfarniadau blynyddol yn cael eu cynnal i bawb a bod arfarniad pob aelod o'r staff yn gyfredol.

Esboniodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y byddent yn gwybod beth i'w wneud pe byddai ganddynt bryder am y ffordd roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu, triniaethau neu drefniadau rheoli.

Roedd trefniadau cynhwysfawr ar waith i fonitro a chynnal rhwymedigaethau proffesiynol y rhai hynny a oedd yn gweithio yn y practis o'r adeg y gwnaethant ddechrau gweithio yno. Roedd system newydd hefyd yn cael ei rhoi ar waith i wella'r trefniadau ar gyfer cynnal gwiriadau rheolaidd ac i nodi dyddiadau adolygu cofrestriadau a gwiriadau eraill sy'n gysylltiedig â rhwymedigaethau proffesiynol. Roedd pob un o'r cofnodion a welsom yn cynnwys cofrestriad cyfredol â'r Cyngor

Deintyddol Cyffredinol a gwiriadau manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Nid oedd gwiriadau geirda wedi'u storio ar ffeil fel rhan o gofnod clinigydd a oedd wedi bod yn gweithio yn y practis ers amser. Fodd bynnag, er mwyn lliniaru unrhyw risgiau i'r cleifion, roedd yn ofynnol i bob cyflogai wneud datgeliad blynyddol mewn perthynas ag unrhyw euogfarnau troseddol neu resymau pam na ddylai ymarfer.

Diwylliant

Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu

Roedd system gynhwysfawr ar waith ar gyfer casglu ac adolygu adborth gan gleifion. Gwelsom ffurflenni adborth wrth y dderbynfa a byddai adolygiadau gwasanaeth cwsmeriaid hefyd yn cael eu hanfon at gleifion i'w cwblhau ar-lein ar ôl cael triniaeth. Roedd staff y dderbynfa hefyd yn cofnodi adborth a roddwyd ar lafar. Roedd y rheolwyr yn adolygu adborth yn rheolaidd ac roedd yr ymatebion i adborth i'w gweld yn ardal y dderbynfa.

Roedd y weithdrefn gwyno yn gwbl gyson â gweithdrefn Gweithio i Wella, a gwelsom dystiolaeth fod cwynion gan gleifion yn cael ymateb amserol. Roedd y weithdrefn wedi'i harddangos ac yn cynnwys pwynt cyswllt penodol i gleifion, a oedd hefyd ar gael ar wefan y practis. Roedd cwynion llafar yn cael eu cofnodi yn y dderbynfa ac yn cael eu rhannu â'r pwynt cyswllt. Roedd camau addas ar gyfer uwchgyfeirio cwyn wedi'u nodi yn y weithdrefn gwyno. Wrth edrych ar sampl o gwynion, gwelsom fod y practis wedi ymdrin â nhw'n effeithiol. Nid oedd unrhyw themâu cyffredin i'w gweld.

Dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau proffesiynol mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Er nad oedd cofnodion o unrhyw ddigwyddiadau a oedd yn gysylltiedig â'r Ddyletswydd Gonestrwydd, cawsom sicrwydd fod y broses a oedd ar waith yn foddhaol.

Dysgu, Gwella ac Ymchwil

Gweithgareddau Gwella Ansawdd

Gwelsom fod polisi gwella ansawdd ar waith a oedd wedi cael ei ddiweddarau'n ddiweddar i gefnogi gweithgareddau'r practis. Roedd rhestr wirio hefyd er mwyn monitro cynnydd y practis yn erbyn yr holl weithgareddau gwella ansawdd. Roedd yr holl weithgareddau gwella ansawdd gorfodol, gan gynnwys archwiliadau, yn gynhwysfawr ac yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Roedd y practis hefyd yn archwilio meysydd eraill nad oedd yn orfodol ei wneud er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

Dull Systemau Cyfan

Gweithio mewn Partneriaeth a Datblygu

Amlinellodd y staff ddulliau addas o gyfathrebu â darparwyr gwasanaethau iechyd eraill, gan esbonio eu bod yn cynnal cydberthnasau gwaith â gwasanaethau gofal sylfaenol eraill. Gwelsom fod proses briodol ar waith i olrhain unrhyw atgyfeiriadau a wnaed i ddarparwyr gwasanaethau eraill.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Roedd yr ardal ddihalogi wrth ymyl orthopantomogram (OPG) y practis lle byddai cleifion weithiau'n cael archwiliad pelydr-X ar yr un pryd ag yr oedd proses ddiheintio yn mynd rhagddi.	Roedd agosrwydd yr OPG at yr ardal ddihalogi yn peri risg y byddai'r cleifion yn dod i gysylltiad ag erisolau halogedig yn ystod cylchoedd yr awtoclaf.	Gwnaethom hysbysu'r staff na ddylai unrhyw glaf gael archwiliad OPG ar yr un pryd â chylch dihalogi er mwyn amddiffyn y cleifion.	Dywedwyd wrthym nad oedd hyn yn digwydd yn rheolaidd ac na fyddai'n digwydd yn y dyfodol. Nodir gwelliannau ychwanegol yn Atodiad C.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Live Life Smiling

Dyddiad yr arolygiad: 26 Mawrth 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol ychwanegol yn ystod yr arolygiad hwn.					

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Live Life Smiling

Dyddiad yr arolygiad: 26 Mawrth 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, gwnaethant ddangos dealltwriaeth o'r 'Cynnig Rhagweithiol' a'r gofyniad i ddarparu gwasanaeth dwyieithog i gleifion. Fodd bynnag, gwnaethant esbonio ei bod hi'n anodd cyfieithu dogfennau ac arwyddion oherwydd y costau a'r amser sydd ei angen.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig weithio gyda'r bwrdd iechyd i roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Adran 13 (1) (a)	Byddwn yn cysylltu â'n bwrdd iechyd lleol i holi pa gymorth y gall ei roi er mwyn i ni roi'r cynnig rhagweithiol ar waith Ymateb gan BIPBA: O ran y Cynnig Rhagweithiol, nid oes digon o adnoddau gan y Bwrdd Iechyd i gynnig unrhyw wasanaethau cyfieithu i bractisau.	Sarah Phillips	31/05/2024

			Fodd bynnag, rhoddodd becyn gwybodaeth i ni am y cynnig rhagweithiol.		
<p>Roedd haenau o lwch i'w gweld y tu mewn i droriau dwy ddeintyddfa. Er bod yr eitemau clinigol a oedd yn cael eu storio yn y droriau hyn wedi'u selio mewn deunydd pecynnu ac yn cael eu storio mewn cynwysyddion cyfarpar, ni chawsom sicrwydd na fyddai'r eitemau clinigol a oedd yn cael eu defnyddio y tu mewn i'r geg yn cael eu halogi drwy gael eu storio o dan yr amodau hyn. Nodwyd gennym hefyd nad oedd yr amserlenni glanhau a oedd ar waith yn dynodi bod angen glanhau'r droriau o dan y</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff pob rhan o'r practis ei chadw'n lân bob amser.</p>	Adran 13 (6)	<p>Bydd uwch-aelodau o'r staff yn cynnal hapwiriadau o'r ardaloedd clinigol er mwyn sicrhau bod pob ardal wedi cael ei glanhau'n drylwyr</p>	<p>Sarah Phillips Laura Morris Nia Rees</p>	parhaus
	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff amserlen reolaidd ei rhoi ar waith i gynnal gwaith glanhau trylwyr ym mhob ardal glinigol.</p>	Adran 8 (1) (m)	<p>Diwygiwyd yr amserlenni glanhau i nodi bod angen glanhau'r droriau o dan y cynwysyddion cyfarpar yn drylwyr</p>	Nia Rees	<p>Wedi'i gwblhau 01/04/2024</p>

cynwysyddion cyfarpar yn drylwyr.					
Roedd orthopantomogram (OPG) y practis wedi'i leoli yn yr ardal ddihalogi lle byddai cleifion yn cael archwiliad pelydr-X ar yr un pryd ag yr oedd proses ddiheintio yn mynd rhagddi. Roedd yr agosrwydd hwn yn peri risg y byddai'r cleifion yn dod i gysylltiad ag erosolau halogedig yn ystod cylchoedd yr awtoclaf. Nodwyd gennym hefyd y gallai'r trefniant hwn beri risg bosibl o niwed i gleifion pe byddai'r peiriant awtoclaf yn ddiffygiol.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y broses ddihalogi ei chynnal ar wahân i'r cleifion er mwyn sicrhau diogelwch cleifion.	Adran 13 (5) Adran 22 (2) (a)	Mae'r practis yn bwriadu gwahanu'r ardal ddihalogi ac ardal yr OPG drwy osod drws sy'n llithro rhwng y ddau fan gwaith	Laura Morris	Ionawr 2025
Gwelsom fod meddyginiaethau brys yr oedd y dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal llwybr archwilio cadarn wrth waredu	Adran 13 (4)	Byddwn yn trefnu bod dogfennaeth ar gael ac yn cael ei storio ar gyfer unrhyw gyffuriau	Sarah Phillips	Parhaus

<p>yn cael eu gwaredu mewn fferyllfa leol, gan gynnwys y rhai a restrwyd fel cyffuriau a reolir o dan ddeddfwriaeth camddefnyddio cyffuriau. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym nad oeddent yn cael unrhyw dderbynebaw wrth waredu'r cyffuriau a reolir ac ni welsom unrhyw dystiolaeth ar ffeil eu bod yn cael eu gwaredu. Byddai cael derbynebaw adeg gwaredu yn amddiffyn y staff ac yn atal cyffuriau a reolir rhag cael eu colli, eu camgadu neu eu camddefnyddio.</p>	<p>meddyginiaethau, yn enwedig cyffuriau a reolir.</p>		<p>a reolir a gaiff eu gwaredu yn y practis.</p>		
<p>Yn y 10 cofnod a welsom, nodwyd bod angen gwella ansawdd nodiadau'r cleifion yn y meysydd canlynol:</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion cleifion cywir a chynhwysfawr eu cwblhau yn unol â gofynion y Cyngor</p>	<p>Adran 20 (1) (a)</p>	<p>Trafodwyd adborth o archwiliadau a chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Chyfadrn Ymarfer</p>	<p>Laura Morris</p>	<p>Wedi'i gwblhau 01/04/2024</p>

<ul style="list-style-type: none"> • Nid oedd profion sgrinio am ganser y geg wedi'u cofnodi yn unrhyw un o'r cofnodion a welsom • Nid oedd asesiadau risg yn seiliedig ar geudodau, perio, traul dannedd a chanser y geg wedi'u cofnodi yn unrhyw un o'r cofnodion • Nid oedd cydsyniad ar sail gwybodaeth wedi'i gofnodi mewn pump cofnod • O'r un cofnod perthnasol a welsom, ni chofnodwyd bod cyngor wedi'i roi ar roi'r gorau i smygu • Nid oedd unrhyw dystiolaeth wedi'i chofnodi i ddangos bod camau atal 'Delivering 	<p>Deintyddol Cyffredinol a chanllawiau Cyfadran Ymarfer Deintyddol Cyffredinol y DU.</p>		<p>Deintyddol Cyffredinol y DU â phob deintydd.</p> <p>Caiff y rhestrau gwirio ar gyfer cadw cofnodion eu diweddarau.</p> <p>Caiff yr Archwiliad Cadw Cofnodion ei ddiweddarau er mwyn sicrhau bod profion sgrinio am ganser y geg, asesiadau risg, Delivering Better Oral Health, rhoi'r gorau i smygu a chydsyniad wedi'u cynnwys.</p>	<p>Sarah Phillips</p> <p>Sarah Phillips</p>	<p>31/05/2024</p> <p>26/07/2024</p>
---	---	--	--	---	-------------------------------------

Better Oral Health'
wedi'u rhoi ar waith.

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Laura Morris

Teitl swydd: Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 17/05/2024